# Darlith 12

Arddodiaid

Peniarth

www.canolfanpeniarth.org

## Yr arddodiaid mwyaf cyffredin

| | | | |
|---|---|---|---|
| am | ar | at | gan |
| heb | i | o | dan |
| dros | drwy | wrth | hyd |

**Byddwch yn ofalus!**

Bydd **gyda / â** hefyd yn cael eu hystyried fel arddodiaid syml, ond byddan nhw'n achosi **treiglad llaes** – TCP!

Dyma rai o' r prif arddodiaid **syml.**

yn

Mae arddodiaid syml yn cynnwys un gair.

Bydd **treiglad meddal** ar ôl pob un o'r uchod.

Peniarth

www.canolfanpeniarth.org

## Rheol 1: **'Y Dodo'**

'Ble wyt ti'n dod-o?'



Â minnau ar wyliau eleni,
Ces air o gyngor gan ieithgi:
'Paid dodi arddodiad
Ar ddiwedd gosodiad.'
Atebais mewn eiliad, 'Sa'i 'n mynd i!'

*Emyr Davies*

Peniarth

www.canolfanpeniarth.org

## Arddodiaid wedi eu rhedeg (hir)

**Ystyr:** arddodiaid sy'n newid yn ôl y person y maen nhw'n cyfeirio ato

1. Mae annwyd arnaf i.
2. Anfonais lythyr ati hi.
3. Mae'r athro wedi dweud wrthyn nhw sawl gwaith.
4. Roedd yr athrawes yn poeni amdani hi

Peniarth

www.canolfanpeniarth.org

## fi, ti, ef, hi, ni, chi, nhw

- Os ydych chi'n defnyddio **fi, ti, ef, hi, ni, chi, nhw** **rhaid** rhedeg yr arddodiad.
- Peidiwch â rhedeg yr arddodiad gydag enwau (Nia, Huw, y plant, y dosbarth…)

Anfonais lythyr at Nia ➔ Anfonais lythyr **ati** hi

Dywedais wrth y plant am wrando ➔
Dywedais _______ nhw am wrando

Peniarth

www.canolfanpeniarth.org

## 1. – af

- Defnyddir patrwm y terfyniad –af gyda'r arddodiaid: am (amdan-) ar at dan

ar

arnaf *i* arnon *ni*
arnat *ti* arnoch *chi*
arno *fe*/arni *hi* arnyn *nhw*

Peniarth

www.canolfanpeniarth.org

## Brawddegau: Salwch - symptomau



Mae'r ffliw arnaf (i) / arna i.







Peniarth

www.canolfanpeniarth.org

## 2. - of

- Defnyddir y patrwm **–of** gyda'r arddodiaid: **o, trwy, dros ..**

o

ohonof *i* ohonon *ni*
ohonot *ti* ohonoch *chi*
ohono *fe*/ohoni hi ohonyn *nhw*

Peniarth

www.canolfanpeniarth.org

## Brawddegau

*Don't take any notice of ________*

1. fi: Peidiwch â chymryd sylw
2. ef: Peidiwch â chymryd sylw
3. hi: Peidiwch â chymryd sylw
4. ni: Peidiwch â chymryd sylw
5. nhw: Peidiwch â chymryd sylw

Peniarth

www.canolfanpeniarth.org

## 3. - yf

Defnyddir y patrwm –yf gyda'r arddodiaid:

gan wrth

gan

gennyf *i* gennym *ni*

gennyt *ti* gennych *chi*

ganddo *fe*/ganddi *hi* ganddyn *nhw*



## Cofiwch am y gân!

- Mae gen i goes sy'n symud lan a lawr…
- Mae gen i ben sy'n symud nôl a mlaen…
- Mae gen i fol sy'n symud mewn a mas …
- Mae gen i gorff sy'n woblan, wiblan woblan!

Bydd angen treiglo'n feddal yn syth ar ôl arddodiaid hir.

Cliw: **fi, ti, ef, hi, ni, chi, nhw!**



## Brawddegau salwch

fi: Mae pen tost gennyf i/gen i

*Mae gennyf ben tost/Mae gen i ben tost





Mae'n iawn defnyddio 'gyda' yn hytrach na 'gan'

## Defnyddio i + rhagenwau

RHEDEG 'i':
i fi/ i mi   i ti  iddo ef/fe  iddi hi   i Ffred
i ni   i chi   iddyn nhw/*iddynt hwy*   i'r plant

1. Mae'n rhaid i chi ...
2. Rwyf eisiau i ni ...
3. Mae angen iddi hi .....
4. Mae angen i Ffred a Ffion

Peniarth
www.canolfanpeniarth.org

## Ymarferion ...

- Gêm nadroedd ac ysgolion.



- Ymarferion papur



- http://sgiliauiaith.colegcymraeg.ac.uk/cy/adnoddau-dysgu/tasgauymarfergloywiiaith




Peniarth
www.canolfanpeniarth.org

## Arddodiad a berfenwau

- Gallwn ddefnyddio arddodiaid ar ôl berfenwau:

| | |
|---|---|
| siarad | dweud |
| cwrdd | gwrando |
| mynd | edrych |
| ysgrifennu | anfon |
| sylwi | sôn |

Peniarth
www.canolfanpeniarth.org

## Berfenw + arddodiad

Gallwn ddefnyddio arddodiaid ar ôl berfenwau

siarad â gwrando ar meddwl am
dweud wrth ysgrifennu at aros am

Mae angen dewis yr arddodiad cywir.
Yn anffodus does dim patrwm ar gyfer dewis!
Rhaid cofio!
***Llyfr: Pa Arddodiad?* gan D. Geraint Lewis**

Peniarth
www.canolfanpeniarth.org

## Rheolau Pwysig

- Peidiwch â defnyddio arddodiaid syml ar ddiwedd brawddegau:
  Ble wyt ti'n dod o?
  **O ble wyt ti'n dod?**
- Rhaid rhedeg arddodiaid ar ddiwedd brawddegau:
  Mae annwyd **arnaf i.**

Peniarth
www.canolfanpeniarth.org

## Rheolau Pwysig

- Cofiwch ddefnyddio'r arddodiaid cywir ar ôl berfenwau.
- Cofiwch redeg yr arddodiad gyda'r rhagenwau – fi/ti/ef/hi/ni/chi/nhw.
  Cofiwch fod treiglad meddal ar ôl rhagenwau hefyd.

Peniarth
www.canolfanpeniarth.org


Dysgu Cyfeiriol …
ITIA4002C
TASG PORTFFOLIO
YSGRIFENNU 2
Gan ddefnyddio llyfryn Taith fy Iaith, a'r targedau a nodwyd ynddo ar hyd y flwyddyn, lluniwch adroddiad adfyfyriol byr (dim mwy na 500 o eiriau) yn trafod eich cynnydd ar hyd y flwyddyn o safbwynt eich cywirdeb iaith.
Dylech sôn am…
• Y targedau a nodwyd, ond ceisiwch osgoi eu rhestru'n slafaidd
• Pa fath o bethau rydych chi wedi eu gwneud (colofn 'gweithred') er mwyn mynd i'r afael â'r targedau? Pa waith darllen wnaethoch chi?
• Pa gynnydd rydych chi wedi ei wneud – ydych chi'n hapus â'ch cynnydd? Pam?
• Beth gallech chi wneud nawr er mwyn symud ymlaen neu barhau i wneud cynnydd?
Bydd angen i chi gyflwyno'r llyfryn hefyd wedi ei gwblhau.
Dylech gyflwyno'r adroddiad a'r llyfryn Taith fy Iaith erbyn 5 Mai 2016.
Wythnos Nesaf:
ADOLYGU
Mai 5ed:
AWDIT
Peniarth
www.canolfanpeniarth.org